

Grŵp Cyngkori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru Dydd Iau 10 Medi 2020 16:00-17:30
Trwy Skype.

Cam gweithredu	Cyfrifol
Aelodau i roi sylwadau ar flaenoriaethau CMEAG ar gyfer y misoedd nesaf.	Pawb
Alison i lunio papur drafft ynghylch cynhwysiant digidol i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.	Alison

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Aled Edwards, Carol Wardman, Kathy Riddick, Valerie Billingham, Patel, Martin Jones, Idris Baker, Martyn Jones, Alison Mawhinney, Helena Herklots, Holly Williams.

Nodyn o'r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	<u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u> Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau a nododd ymddiheuriadau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Sean O'Neill, Viv Harpwood, Ilora Finlay, Liz Davies, Alison Parken, Uzo Iwobi, Emma Bennett a Joe Powell.
2.	<u>Cofnodion blaenorol</u> Gofynnodd Heather a oedd gan aelodau'r grŵp unrhyw sylwadau/diwygiadau ar nodyn y cyfarfod diwethaf i'w hanfon i Holly cyn gynted â phosibl. Yna caiff y nodiadau eu cyhoeddi. <u>Camau gweithredu</u> Cytunwyd ar bob un a'u cwblhau
3.	<u>Adolygu Cylch Gorchwyl CMEAG ac ystyried y cyfeiriad yn y dyfodol</u> Dywedodd Heather fod y Cylch Gorchwyl yn cynnwys adran ar yr angen i adolygu swyddogaeth a gwerth CMEAG a thrafod beth fydd y cynllun tymor canolig i hirdymor wrth symud ymlaen. Tynnodd Heather sylw hefyd at yr angen i gael popeth yn ei le a bod yn barod i ymateb i unrhyw ail frig o'r feirws a oedd wedi'i gynnwys yn y Cylch Gorchwyl. Gofynnodd Heather am syniadau'r grwpiau ar ba feysydd y dylid eu blaenoriaethu dros y misoedd nesaf. Trafododd y grŵp bynciau megis canser, cymorth cyffredinol i bobl hŷn, canllawiau clir ar apwyntiadau a thriniaeth mewn ysbytai os oes cyfyngiadau lleol ar waith, ymweliadau â chartrefi gofal preswyl a negeseuon ar gwarantfîn/hunanyngysu a'r hawl i gael tâl salwch statudol.

	Diolchodd Heather i'r grŵp am eu meddyliau a gofynnodd a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach i gysylltu â Holly cyn gynted â phosibl – bydd y rhain wedyn yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.
4.	<u>Datblygu cymorth Moesegol Clinigol ar gyfer gwneud penderfyniadau gofal iechyd o ran yr Ymateb Covid-19 yn GIG Cymru a'r broses Adfer</u> Diolchodd Heather i'r grŵp am eu cyfraniad ar flaenoriaethau a awgrymwyd a gofynnodd am syniadau pellach ar sut y gall y grŵp ddylanwadu ar newidiadau ar lawr gwlad a'u cyflwyno. Cyngorodd Heather yn ogystal â chynhyrchu papurau a bwydo i mewn i'r polisi o ran sut rydym yn ymgorffori'r egwyddorion hyn gan ddefnyddio camau gweithredu lleol i sicrhau bod gan bob bwrdd iechyd bwyllgor moesegol gweithredol. Dywedodd Heather ei bod wedi trafod y syniadau a awgrymwyd yn flaenorol yn y cyfarfodydd gyda chyfarwyddwyr meddygol a chyfarwyddwyr nyrsio sydd wedi bod yn gwbl gefnogol ac yn fodlon â'r syniad. Awgrymodd Heather ein bod yn dod ag aelodau ynghyd o bwyllgorau moesegol presennol fel bod gennym ddealltwriaeth o'r hyn sydd gan bob bwrdd iechyd ar waith. Awgrymodd y grŵp nifer o bwyllgorau presennol y mae gan bob un ohonynt aelodau a fydd yn gallu darparu arbenigedd megis y Gyfnewidfa Cydraddoldeb, CLILC a'r Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Gofynnodd Heather a oedd aelodau'r grŵp i gyd yn cytuno â'r papur sydd wedi'i lunio fel y gallwn ddechrau ystyried trefnu cyfarfod grŵp. Gofynnodd Heather am sylwadau ar y profforma sydd wedi'i lunio i'w anfon at Holly o fewn yr wythnos nesaf. Mae'r profforma wedi'i greu i helpu unrhyw un sy'n wynebu mater moesegol i gadw cofnod.
5.	<u>Gadael neb ar ôl</u> Darparodd Helena drosolwg ar yr adroddiad 'Gadael neb ar ôl' a baratowyd yn dilyn sesiynau ymgysylltu â phobl hŷn. Mae'r adroddiad yn nodi camau gweithredu tymor byr brys y mae angen iddynt fod ar waith cyn gynted â phosibl. Dywedodd Helena fod stori Margaret ar ddechrau'r adroddiad yn dod â llawer o brofiadau pobl hŷn at ei gilydd a'r llif drwy'r adroddiad yw hawliau pobl hŷn a'r angen iddynt gael eu diogelu'n well. Dywedodd Helena mai hawliau pobl hŷn yw craidd y gwaith hwn a bu'r ffordd y cawsant eu hanwybyddu dros y misoedd diwethaf yn bryder mawr. Mae'r adroddiad yn rhestru nifer o gamau brys i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hadfer. Siaradodd Helena am y cyfyngiadau diweddar yng Nghaerffili a'r negeseuon a anfonwyd ynghylch atal ymweliadau â chartrefi gofal. Dywedodd Helena nad yw hyn yn wir ac y dylai ymweliadau fynd rhagddynt mewn amgylchiadau eithriadol. Bu nifer o bryderon hefyd ynghylch y diffyg hyder ymhlith pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau iechyd ac mae iechyd meddwl ymhlith pobl hŷn wedi dirywio'n sylweddol

	Dywedodd Helena fod y swyddfa'n gwneud gwaith gyda sefydliadau ar sut i leihau cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn gan nad yw cam-drin yn cael ei gofnodi dros 74 oed ac mae pobl hŷn yn amharod i geisio cymorth a chefnogaeth. Trafododd y grŵp yn fanwl nad yw 41% o bobl dros 75 oed ar-lein ar hyn o bryd ac nad ydynt yn hyderus i ddefnyddio'r rhyngwrwyd. Gan fod y rhyngwrwyd yn allweddol dros y pandemig am amrywiaeth o resymau megis fideogynadledda ac apwyntiadau cytunodd y grŵp fod edrych ar sut i gefnogi pobl hŷn i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn flaenoriaeth allweddol y mae angen bwrw ymlaen â hi. Cytunodd Alison i edrych i mewn i sut y gall y grŵp lunio'r gwaith digidol a sut y gellir bwrw ymlaen ag ef - bydd Alison yn llunio papur i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Diolchodd Heather i Helena am ddod â'r adroddiad i'r cyfarfod a gofynnodd a oedd unrhyw beth y gallai CMEAG ei wneud i dynnu sylw at yr adroddiad. Gofynnodd Helena i'r aelodau rannu'r adroddiad gyda'r holl rwydweithiau a chydweithwyr. Cytunodd y grŵp hefyd ar yr angen i gadw llygad ar gartrefi gofal a sut y gallwn ychwanegu gwerth. Diolchodd Heather i'r cylch am eu sylwadau a'u cyfraniad a chytunodd i ychwanegu digidol at y blaenoriaethau – dywedodd Heather y bydd hyn hefyd yn cynnwys plant.
6.	<u>Unrhyw fater arall</u> Dywedodd Heather y byddai'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod heddiw yn cael eu dosbarthu i'r grŵp i gael syniadau gan y rhai nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod heddiw. Gofynnodd Heather i'r grŵp anfon unrhyw syniadau pellach at Holly i'w trafod yn y cyfarfod nesaf. <u>Y Cyfarfod nesaf</u> Ymhen pythefnos yn unol â'r cynllun (24 Medi).